Adroddiad ar:

# Sut mae sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol yn cefnogi datblygiad perthnasoedd iach ymhlith pobl ifanc

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Methodoleg

Ar gyfer yr arolygiad hwn â thema, diffinnir datblygu perthnasoedd iach fel a ganlyn:

Mae datblygu perthnasoedd iach ymhlith pobl ifanc yn golygu dysgu meithrin cysylltiadau parchus, cefnogol a diogel yn seiliedig ar ymddiriedaeth, cydraddoldeb, a chyfathrebu agored. Mae'n cynnwys deall a chynnal ffiniau personol, adnabod arwyddion o ymddygiad afiach neu ymelwol fel meithrin perthynas amhriodol neu reolaeth orfodaethol, a bod yn wybodus am iechyd a chydsyniad rhywiol. Cefnogir y datblygiad hwn gan addysg ac arweiniad i helpu pobl ifanc i ymdopi â phwysau gan gyfoedion a ffurfio perthnasoedd cadarnhaol, nad ydynt yn rhai niweidiol, ar-lein ac oddi ar-lein.

Nodwyd pedwar sefydliad gwaith ieuenctid gwirfoddol ar gyfer yr arolygiad hwn yn seiliedig ar faint eu cyllid cyhoeddus a'u niferoedd staff, gyda dau o ogledd Cymru a dau o dde Cymru. Caiff pob un o'r pedwar sefydliad eu hariannu'n rhannol gan y Grant Strategol ar gyfer Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol (SVYWOG). Dyma'r sefydliadau a nodwyd ar gyfer yr arolygiad hwn:

- Dr Mz- Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin
- Grŵp Ieuenctid Maerdy (Canolfan Maerdy)
- Cwmni Buddiant Cymunedol (CBC) STAND Gogledd Cymru
- Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Y Rhyl

Ymwelwyd â'r pedwar sefydliad yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Mehefin 2025. Cyn yr arolygiad, darparodd pob sefydliad dystiolaeth ddogfennol i'r tîm arolygu ei hystyried. Yn ystod yr ymweliadau arolygu, cynhaliodd arolygwyr ystod o weithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd gyda rheolwyr, ymddiriedolwyr, ac aelodau o'r bwrdd cynghorol, staff gwaith ieuenctid, a phartneriaid.

Arsylwyd sampl o ddarpariaeth o bob sefydliad, a bu arolygwyr yn siarad â phobl ifanc yn y darpariaethau hyn.

## Cyflwyniad

Mae sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol yn cynrychioli rhan fawr o'r sector gwaith ieuenctid ledled Cymru. Maent yn amrywio o sefydliadau cymunedol bach, lleol i wasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol mwy. Mae gan sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol rôl hanfodol mewn cefnogi pobl ifanc, gan eu helpu i ddatblygu a llywio perthnasoedd yn ddiogel. Mae'r sefydliadau a arolygwyd yn cynrychioli enghreifftiau o sefydliadau cymunedol a rhanbarthol lleol yng Nghymru.

Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin (Dr Mz)

Sefydlwyd Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin, Dr. Mz, ym 1997, a'i enwi gan bobl ifanc. Mae'n coffáu'r ddiweddar Dr. Margaret Evans, meddyg teulu a Chynghorydd lleol, yr oedd ei gweledigaeth, ei brwdfrydedd a'i hymdrechion anhunanol yn ysbrydoliaeth i'r prosiect.

Ym 1997, roedd dros 100 o bobl 11-25 oed yng Nghaerfyrddin yn mynychu, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid. Ers hynny, mae miloedd o bobl ifanc wedi dod trwy ddrysau Dr. Mz gan gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau, gyda thros 550 o bobl ifanc yn mynychu bob blwyddyn. Mae canolfan ieuenctid galw i mewn mynediad agored yn ganolog i Dr. Mz, a gynhelir gan Brosiect Ieuenctid Caerfyrddin ar gyfer pobl ifanc. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau prosiect yn ddibynnol ar gyllid sydd ar gael. Cynhelir gweithgareddau mewn adeilad dynodedig yng nghanol Caerfyrddin, sydd â chegin gwbl addas a gardd neilltuedig, gan gynnwys twnnel polythen, lle gall pobl ifanc dyfu, cynhyrchu a dysgu sut i droi'r hyn maent yn ei gynaeafu yn brydau bwyd maethlon yn y gegin.

Grŵp Ieuenctid Maerdy – Canolfan Maerdy

Mae Canolfan Maerdy yn Nhairgwaith yn gweithredu yn Nyffryn Aman Uchaf ac yn darparu hyb cymunedol amlddefnydd. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar Ddyffryn Aman Uchaf gyda chysylltiadau ac ymgysylltiad yn Sir Gaerfyrddin a Dyffryn Tawe Uchaf, fel y bo'n briodol. Mae Canolfan Maerdy yn gweithredu gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr, yn cyflogi 22 aelod o staff ac yn cael ei chefnogi gan dros 30 o wirfoddolwyr. Sefydlwyd Canolfan Maerdy yn 2009 yn olynydd i Fenter Dyffryn Aman, a oedd wedi bod yn weithgar yn y gymuned am y 20 mlynedd flaenorol.

Sefydlwyd Grŵp Ieuenctid Maerdy ym mis Ionawr 2015 a chaiff ei reoli gan Ganolfan Maerdy, lle mae'r grŵp yn cyfarfod, hefyd. Mae'n elusen gofrestredig, gyda dau weithiwr ieuenctid amser llawn a gefnogir gan wirfoddolwyr. Mae ganddo dros 270 o aelodau cofrestredig rhwng 11 ac 18 oed. Gall pobl ifanc gyfarfod ddwy noson yr wythnos, yn ogystal â boreau Sadwrn. Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy yn gweithredu fforwm ieuenctid

sy’n rhoi’r cyfle i bobl ifanc ddod at ei gilydd i drafod a ‘chael lleisio barn’ ar faterion amrywiol sy’n effeithio arnyn nhw.

CBC STAND Gogledd Cymru

Yn Gryfach Gyda’n Gilydd ar gyfer Anghenion Ychwanegol ac Anableddau; ffurfiwyd CBC STAND Gogledd Cymru gan ddau riant fel Cwmni Buddiant Cymunedol nid er elw yn 2018. Mae’n sefydliad a arweinir gan rieni a defnyddwyr sy’n cynrychioli teuluoedd gyda phlant, a phobl ifanc, yn ogystal ag oedolion ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Anghenion Ychwanegol ac Anableddau yng Ngogledd Cymru.

Mae cynnig gwaith ieuenctid CBC STAND Gogledd Cymru yn cynnwys clybiau ieuenctid ar-lein, clybiau ieuenctid wyneb yn wyneb ar ddydd Sadwrn, gweithdai yn yr ysgol ac amrywiaeth o dripiau a gweithgareddau.

Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Y Rhyl (WRYPP)

Sefydlwyd WRYPP ym 1991 a daeth yn elusen gofrestredig ym 1994. Ei gweledigaeth yw mynd i’r afael ag anghyfiawnder, anghydraddoldeb ac amddifadedd cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd ledled Gogledd Cymru, trwy addysg, gweithredu cymunedol a chymorth personol.

Mae WRYPP yn gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc, gan eu hannog i archwilio’u profiadau bywyd i’w galluogi i nodi a mynd i’r afael â rhwystrau personol, ennill y medrau a fydd yn fuddiol, gwella bywyd a’u galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am ffordd o fyw. Mae WRYPP yn cynorthwyo pobl ifanc i dorri’r cylch tlodi ac iechyd gwael trwy ddarparu rhaglenni fel ymyrryd mewn argyfwng ac ymyrraeth gynnar, atal ac addysg. Mae WRYPP yn cynnig gwasanaeth galw i mewn a gwybodaeth o’r enw Pixel, amlgyfrwng, bocsio, cerdded bryniau a’u gwasanaeth LHDTC+ Viva sydd wedi bod yn weithredol er 1997.

## Crynodeb

Mae’r sefydliadau’n adnabod eu pobl ifanc yn dda, ac mae perthnasoedd cryf rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc yn nodwedd sy’n diffinio’u gwaith. Mae pobl ifanc yn gweld gweithwyr ieuenctid fel oedolion y gallant ymddiried ynddynt a modelau rôl cadarnhaol. Mae pobl ifanc yn disgrifio gweithwyr ieuenctid fel pobl ymroddgar, nad ydynt yn barnu, ac sy’n ddibynadwy.

Mae pob un o’r sefydliadau’n gosod pum piler gwaith ieuenctid yn ganolog i’w cynllunio, eu cyflwyno a’u gwerthuso. Mae pobl ifanc yn chwarae rôl weithredol mewn ffurfio’r ddarpariaeth a gânt, sy’n meithrin ymdeimlad o berchnogaeth. Mae pobl ifanc yn

datblygu'r ymdeimlad hwn o berchnogaeth ymhellach trwy gyd-greu eu gofod corfforol. Yn WRYPP, bu pobl ifanc yn gweithio gyda saer i adeiladu lloches awyr agored, ac yn Dr Mz, bu pobl ifanc yn datblygu gofod gardd lle maent yn tyfu cynhwysion ar gyfer sesiynau coginio. Mae'r berchnogaeth hon, wedi'i chyfuno ag amgylchedd sy'n seicolegol ddiogel a pherthnasoedd ymddiriedus, yn galluogi pobl ifanc i archwilio'u hunaniaeth ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r byd o'u cwmpas.

Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cynnwys ar berthnasoedd iach trwy amrywiaeth o ddulliau, trwy weithdai a gyflwynir mewn clybiau ieuenctid ac ysgolion, yn ogystal â thrwy drafodaethau a dadleuon anffurfiol. Pan fydd cymorth a darpariaeth yn gweithio'n dda, mae pobl ifanc yn sôn am drawsnewidiadau cadarnhaol, gan gynnwys hunan-barch cynyddol a mwy o hyder mewn rheoli perthnasoedd a'u hiechyd meddwl. Mae pobl ifanc sy'n defnyddio CBC STAND Gogledd Cymru yn siarad am y modd y mae'r ddarpariaeth yn trawsnewid eu bywydau, gan roi'r hyder iddynt wirfoddoli yn y gymuned a chynhyrchu podlediadau am eu bywydau. Mae pobl ifanc yng Ngrŵp Ieuenctid Maerdy yn troi at eu gweithwyr ieuenctid yn ystod cyfnodau anodd am gymorth emosiynol ac iechyd meddwl.

Mewn ardaloedd lle mae risg camfanteisio a meithrin perthynas amhriodol yn sgil llinellau cyffuriau yn uwch, mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn gallu lliniaru'r risgiau hyn a chefnogi pobl ifanc yn briodol. Mae gweithwyr ieuenctid yn ymwybodol o'r risgiau a achosir trwy blatfformau chwarae gemau ar-lein, yn enwedig i'r llu o ferched ifanc sy'n dweud bod bechgyn hŷn wedi siarad â nhw trwy'r platfformau hyn. Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu arweiniad a chymorth gwerthfawr wrth godi a thrafod y materion hyn gyda phobl ifanc.

Mae gweithwyr ieuenctid yn y sefydliadau hyn naill ai wedi cymhwyso i Lefel 3 ac yn uwch neu'n gweithio tuag at y safon hon. Mae gweithlu cymwys yn flaenoriaeth glir i'r sefydliadau, nid yn unig i fodloni gofynion cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ond hefyd i sicrhau bod staff wedi eu harfogi i gynnig cymorth o ansawdd uchel i bobl ifanc. Fodd bynnag, y tu hwnt i Lefel 3, mae cyfle i elwa ar ddysgu proffesiynol yn anghyson. Mae cyfleoedd hyfforddi pellach yn dibynnu ar bartneriaethau cryf, mynediad i gynigion lleol a rhanbarthol, ac yn hollbwysig, argaeledd cyllid.

Pan mae partneriaethau'n gryf, mae'r sefydliadau hyn yn elwa ar hyfforddiant perthnasol a chydweithio i feithrin capasiti. Fodd bynnag, mae gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn anghyson. Nid yw llawer o'r sefydliadau ieuenctid hyn yn cael eu cydnabod na'u deall yn eang gan ysgolion a sefydliadau awdurdodau lleol eraill, gan arwain at golli cyfleoedd i gydweithio'n effeithiol, sy'n cael effaith negyddol ar bobl ifanc.

Mae cyllid cynaliadwy yn her sylweddol i'r sefydliadau gwaith ieuenctid hyn. Mae'r sefydliadau'n dibynnu ar ffynonellau cyllid lluosog, sy'n aml yn rhai tymor byr, y mae llawer ohonynt yn grantiau untro. Mae sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal eu hunaniaeth

graidd a dibenion gyda'r angen i fodloni meini prawf grantiau allanol yn creu tensiwn cyson.

Mae sefydliadau'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod darpariaeth yn hygyrch i bobl ifanc. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau sefydliadau i ddarparu cludiant i bobl ifanc allu mynychu darpariaeth, mae cludiant yn rhwystr o hyd, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig, sy'n golygu bod pobl ifanc yn methu gwasanaethau gwaith ieuenctid hanfodol.

## Argymhellion ar gyfer y sefydliadau

A1 Gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol i ffurfio cynnig dysgu proffesiynol cyson, sy'n cael ei ariannu'n briodol ac yn darparu'r capasiti i staff fynychu

A2 Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid perthnasol i fanteisio ar ffrydiau cyllido cyson sy'n sicrhau cynaliadwyedd ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio strategol manylach

A3 Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i wella hygyrchedd i gludiant i alluogi pobl ifanc o ardaloedd gwledig i elwa ar wasanaethau

A4 Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod staff yn gallu cael cymorth addas ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

Ar draws y pedwar sefydliad, mae gan arfer gwaith ieuenctid rôl arwyddocaol mewn helpu pobl ifanc i ddatblygu perthnasoedd iach yn rhan o'u twf personol, cymdeithasol ac emosiynol ehangach. Mae'r sefydliadau mwyaf effeithiol yn ymgorffori'r thema hon yn gyfannol trwy ddysgu cynlluniedig, cymorth emosiynol, a gofodau diogel a chynhwysol.

Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy yn darparu profiadau addysgol hynod bwrpasol sy'n mynd i'r afael yn eglur â datblygu perthnasoedd iach. Mae staff yn herio safbwyntiau gwreig-gasaol, yn annog parch ar y ddwy ochr, ac yn modelu ymddygiadau perthynol cadarnhaol trwy god ymddygiad wedi'i gyd-greu. Mae rhaglen iechyd meddwl ddynodedig, gan gynnwys gweithdai meithrin gwydnwch a sesiynau un i un wythnosol, yn cryfhau aeddfedrwydd emosiynol pobl ifanc a'u gallu i reoli heriau rhyngbersonol. Mae cymorth yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, gan sicrhau mynediad i addysg i bawb sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd.

Mae CBC STAND Gogledd Cymru yn helpu pobl ifanc i archwilio testunau perthnasoedd cymhleth fel ffiniau, ymddygiad ar-lein, a rheoleiddio emosiynol trwy weithdai strwythuredig, cynnwys digidol teilwredig, a thrafodaethau grŵp thematig. Mae gweithwyr ieuenctid yn defnyddio gweithgareddau yn seiliedig ar fyfyrio yn effeithiol iawn i helpu meithrin hunanymwybyddiaeth ac empathi. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn gwella'u hyder, eu gwydnwch a'u dealltwriaeth ryngbersonol.

Mae Dr. Mz yn cynnig amrywiaeth fuddiol o sesiynau strwythuredig sy'n galluogi pobl ifanc i archwilio materion sy'n effeithio arnyn nhw. Maent hefyd yn hwyluso trafodaethau sy'n digwydd yn naturiol yn ystod sesiynau sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc. Mae'r trafodaethau hyn yn hynod effeithiol ymhlith pobl ifanc hŷn. Fodd bynnag, nid yw cyfoedion iau o reidrwydd yn meddu ar yr aeddfedrwydd emosiynol i archwilio materion o'r fath mewn fformat anstrwythuredig.

Mae WRYPP yn defnyddio ymagwedd sy'n ystyriol o drawma at ddysgu yn dda, gan ddefnyddio sgyrsiau anffurfiol ac adrodd storïau am fywyd go iawn. Enghraifft o hyn yw sut mae siaradwr gwadd o garchar yn addysgu pobl ifanc am y risgiau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â pherthnasoedd. Mae gweithgareddau fel coginio, garddio, a cherdded bryniau yn blatfform ymarferol i ddatblygu medrau cyfathrebu a chydweithredu pobl ifanc yn fuddiol mewn amgylchedd diogel.

Yng Ngrŵp Ieuenctid Maerdy, caiff pobl ifanc eu hannog i fynegi galar, hoffter, ac undod gyda chyfoedion yn ystod profiadau emosiynol a rennir. Mae staff yn defnyddio cardiau

emosiwn a deialog i helpu mynegi teimladau, sy'n hanfodol wrth gefnogi perthnasoedd sy'n emosiynol iach, ac wrth ddarparu cymorth gwerthfawr yn dilyn digwyddiadau trawmatig.

Mae CBC STAND Gogledd Cymru ac WRYPP yn mynd ati i feithrin dysgu mynegiannol yn effeithiol. Mae adnoddau wedi eu creu gan gyfoedion fel podlediadau, creu fideos a phosteri, yn CBC STAND Gogledd Cymru yn galluogi pobl ifanc i rannu naratifau personol a mewnwelediadau am berthynas â phobl eraill. Yn WRYPP, mae mynegiant trwy weithgarwch corfforol, cerddoriaeth, a sgyrsiau anffurfiol yn hyrwyddo hunanymwybyddiaeth a rhyddhad emosiynol, sy'n elfennau allweddol wrth ddeall a rheoli perthnasoedd.

Mae llais pobl ifanc yn nodwedd gref yn CBC STAND Gogledd Cymru a Grŵp Ieuenctid Maerdy. Mae pobl ifanc yn cyd-ddatblygu codau ymddygiad, yn arwain ar greu cynnwys, ac yn gwasanaethu ar fyrddau cynghorol. Mae'r berchnogaeth ar y cyd hon yn meithrin amgylchedd o barch ar y ddwy ochr a chyfrifoldeb ar y cyd, sy'n adlewyrchu egwyddorion perthnasoedd iach.

Mae Dr. Mz yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n gwella'u dealltwriaeth ac yn creu perthnasoedd personol iach yn ymarferol. Er enghraifft, cynhaliodd brosiect tymor byr arloesol gan ddarparu sesiynau ar gyfer pobl ifanc a oedd yn cael addysg ddewisol yn y cartref. Cefnogwyd hyn yn ystod chwe mis olaf y prosiect gan yr awdurdod lleol. Rhoddodd hyn gyfleoedd hanfodol i'r bobl ifanc ymgysylltu'n gymdeithasol a datblygu medrau rhyngbersonol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at feithrin perthnasoedd gweithredol iach â phobl ifanc eraill.

Mae WRYPP yn cefnogi cyfranogiad trwy arferion a gwneud penderfyniadau wedi'u harwain gan grwpiau, sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu cymwyseddau perthynol fel gwrando, cyfaddawdu ac arweinyddiaeth. Mae'r cyfleoedd hyn yn hynod werthfawr ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu gwahardd neu wedi profi ansefydlogrwydd, ac nad ydynt efallai wedi cael gofodau diogel i ymarfer medrau o'r fath.

Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy ac WRYPP yn darparu gofodau hynod gynhwysol lle caiff hunaniaeth, diwylliant ac iaith eu parchu. Mae arweinydd ieuenctid Maerdy yn cyfathrebu yn Gymraeg gyda phobl ifanc sydd â'r Gymraeg fel eu dewis iaith ac/neu eu cyfrwng addysg. Yn ychwanegol, mae'r arweinydd ieuenctid wedi cael hyfforddiant TESOL, ac mae hynny, wedi'i gyfuno ag addasiadau hygyrchedd, yn sicrhau nad oes yr un person ifanc yn cael ei adael allan o sgyrsiau allweddol am ddiogelwch a pherthnasoedd. Mae ethos cynhwysol WRYPP yn cefnogi ieuenctid LHDTC+ trwy eu darpariaeth LHDTC+ Viva hirsefydledig, gan ddarparu gofodau datgan hunaniaeth ar gyfer hunanfynegi a meithrin cymuned.

Mae CBC STAND Gogledd Cymru yn cefnogi cynwysoldeb trwy gyflwyno sesiynau gwahaniaethol, er enghraifft sicrhau bod y cynnwys yn briodol i oedran a gallu, yn cynnwys addasiadau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac ymgysylltiad targedig o ran grwpiau wedi'u hynysu. Mae'r arferion hyn yn hyrwyddo ymdeimlad ar y cyd o werth a pherthyn yn llwyddiannus, gan osod y sylfaen ar gyfer perthnasoedd parchus ac ymddiriedus.

### Ciplun: CBC STAND Gogledd Cymru
### Chwalu rhwystrau, meithrin Parch: Prosiect Troseddau Casineb Anabledd

Datblygodd CBC STAND Gogledd Cymru brosiect pum wythnos wedi'i anelu at godi ymwybyddiaeth o drosedd casineb anabledd, gan gyflwyno sesiynau i dair ysgol a choleg. Cychwynnwyd y prosiect ar ôl clywed gan bobl ifanc am eu profiadau niweidiol yn ymwneud â gwahaniaethu oherwydd eu hanableddau. Cynhaliodd gweithwyr ieuenctid arolwg ym mhob grŵp ysgol a choleg a fu'n peilota'r prosiect hwn. Darganfuont fod llawer o'r bobl ifanc y gwnaed arolwg ohonynt wedi profi digwyddiadau casineb yn gysylltiedig â'u hanableddau. Aeth CBC STAND Gogledd Cymru i'r afael â'r mater yn uniongyrchol.

Trwy gydol y prosiect pum wythnos, bu pobl ifanc yn archwilio cysyniad trosedd casineb ac yn dysgu am yr amddiffyniadau a gynigir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar ddiwedd y prosiect, bu myfyrwyr yn defnyddio dulliau creadigol, fel posteri a fideos, i hyrwyddo ymagweddau dim goddefgarwch at droseddau casineb o fewn eu lleoliadau addysg.

Llwyddodd y fenter i godi ymwybyddiaeth a grymuso pobl ifanc i adnabod a herio gwahaniaethu. Helpodd i feithrin eu hyder tra'n datblygu medrau ymarferol hefyd mewn meysydd fel ffilmio a golygu fideos.

Yn dilyn ei lwyddiant cychwynnol, ehangwyd y prosiect i ysgolion eraill ac mae wedi cynnwys sesiynau ar y cyd rhwng grwpiau ieuenctid. Mae'r sesiynau hyn wedi chwarae rôl hanfodol mewn dod â phobl ifanc at ei gilydd i gynyddu ymwybyddiaeth a pharch ymhlith cyfoedion.

Mae llawer o'r gweithgareddau a gynigir gan Dr. Mz yn pwysleisio cynwysoldeb yn fuddiol a defnyddir gweithwyr proffesiynol eraill yn effeithiol i gyflwyno gweithdai gwerthfawr sy'n ymdrin â thestunau fel materion iechyd a chynnal grŵp LHDTC+ wythnosol.

Mae grymuso pobl ifanc yn hynod amlwg yn CBC STAND Gogledd Cymru ac WRYPP. Yn CBC STAND Gogledd Cymru, mae pobl ifanc yn dweud bod ganddynt ymdeimlad o drawsnewid, o encilio'n emosiynol i fod yn siaradwyr cyhoeddus hyderus, ar ôl cael cefnogaeth i archwilio a deall dynameg eu perthnasoedd. Mae cynghorau ieuenctid, gwirfoddoli a mentora cyfoedion yn atgyfnerthu'r ymdeimlad hwn o rym ymhellach.

Mae WRYPP yn hyrwyddo sefydlogrwydd perthynol trwy dîm staff cyson, gan roi'r sicrwydd i bobl ifanc wneud dewisiadau, lleisio pryderon, ac ymdopi â risgiau personol. Mae rhaglenni fel bocsio a gweithgareddau awyr agored yn meithrin gwydnwch corfforol ac emosiynol, sy'n cynorthwyo pobl ifanc i wrthsefyll perthnasoedd gorfodaethol a mynnu ffiniau.

Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy yn cefnogi grymuso pobl ifanc trwy gymorth emosiynol, ffiniau clir, a modelu ymddygiad. Gwelir bod pobl ifanc yn cymryd perchnogaeth o'u lles nhw a lles pobl eraill, yn enwedig wrth godi pryderon ynghylch risgiau a diogelwch cyfoedion ar-lein. Mae darpariaeth Dr. Mz yn grymuso pobl ifanc hŷn trwy ddarparu ymreolaeth i benderfynu ar eu gweithgareddau eu hunain, a'u rheoleiddio, tra'n gosod disgwyliadau clir ac uchel o ymddygiadau pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid, fel ei gilydd.

### Ciplun: Grŵp Ieuenctid Maerdy
### Gwerth arferion gwaith ieuenctid

Yng Nghlwb Ieuenctid Maerdy, mae gweithwyr ieuenctid yn rhoi llawer o bwyslais ar fodelu perthnasoedd da i bobl ifanc. Mae hyn yn hanfodol mewn ardal led-wledig, ôl-ddiwydiannol sydd wedi cael trafferth adfer o gau'r pyllau glo. Er bod y gymuned o gwmpas canolfan gymunedol Canolfan Maerdy yn fywiog a chefnogol, mae gwaith lleol yn brin, a'r cysylltiadau cludiant yn wael. Mae hyn yn arwain at ddyheadau isel a diffyg modelau rôl ar gyfer llawer o bobl ifanc. Mae cyfran uchel o bobl ifanc yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn yr ardal.

Mae gweithwyr ieuenctid, y mae llawer ohonynt yn wirfoddolwyr lleol, sy'n cael eu harwain yn fedrus gan arweinydd ieuenctid a gweithiwr ieuenctid amser llawn, yn meithrin ethos o dderbyn, dealltwriaeth a thosturi. Caiff y ganolfan ei mynychu'n dda gan ystod o bobl ifanc rhwng 11 a thros 16 oed sy'n aml yn gweithredu fel gwirfoddolwyr. Caiff gweithgareddau eu harwain gan bobl ifanc ac mae grwpiau o bobl ifanc, gan gynnwys cyngor ieuenctid, yn penderfynu ar weithgareddau. Mae pobl ifanc yn tueddu i fynd i'r ganolfan ieuenctid fel lle diogel yn ystod cyfnodau o argyfwng a straen yn y gymuned ac yn eu bywydau personol eu hunain.

Mae drws ystafell y gweithwyr ieuenctid bob amser yn agored, a chan fod gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, mae pobl ifanc yn teimlo'n gartrefol i ddweud am eu problemau a siarad trwy faterion. Mae'r gweithwyr ieuenctid yn bobl dderbyngar nad ydynt yn barnu, ac maent yn cymryd camau priodol i gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill, lle mae angen.

Yn aml, y gweithiwr ieuenctid yw'r person cyntaf y mae pobl ifanc yn troi ato, ac mae'n aml yn gweithredu fel eiriolwr ar gyfer y bobl ifanc gyda'r gymuned ehangach.

Ceir sawl enghraifft nodedig o bobl ifanc ag ymddygiad heriol sydd, trwy eu rhyngweithio â'r clwb a'r gweithwyr ieuenctid, wedi aeddfedu i fod yn oedolion ifanc sydd bellach yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc eraill.

Mae'r clwb hwn yn ganolog i'r gymuned ac yn enghraifft o'r defnydd hynod effeithiol o egwyddorion gwaith ieuenctid craidd, gan rymuso a chefnogi pobl ifanc wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion.

At ei gilydd, mae pob un o'r pedwar sefydliad yn cefnogi pobl ifanc yn dda i ddatblygu perthnasoedd iach wrth iddynt ddod yn oedolion ifanc mewn cymdeithas.

### Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Mae pob un o'r pedwar sefydliad yn darparu gwaith ieuenctid sy'n cyfrannu'n ystyrlon at allu pobl ifanc i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach. Cyflawnir hyn trwy berthnasoedd ymddiriedus â staff, amgylcheddau cynhwysol ac sy'n ddiogel yn emosiynol, a chyfleoedd strwythuredig ac anffurfiol i bobl ifanc archwilio materion yn seiliedig ar berthynas. Mae'r sefydliadau cryfaf yn ymgorffori'r thema hon ar draws ehangder eu cynnig, o ddiogelu a chyflwyno sesiynau i ymgysylltu â theuluoedd a diogelwch digidol.

Mae gweithwyr ieuenctid yng Ngrŵp Ieuenctid Maerdy yn bresenoldeb ymddiriedus a chyson ym mywydau pobl ifanc. Mae eu hymagwedd berthynol, nad yw'n barnu, yn galluogi pobl ifanc i ddatgelu gwybodaeth sensitif ac archwilio pryderon yn seiliedig ar berthynas. I lawer, mae staff yn cynrychioli'r modelau rôl oedolion dibynadwy yn unig, sy'n ymestyn gallu pobl ifanc i fewnoli ymddygiad parchus a meithrin ymddiriedaeth gyda phobl eraill. Caiff pobl ifanc hŷn eu hannog i fentora cyfoedion, gan gryfhau dysgu rhwng cenedlaethau a hyrwyddo arweinyddiaeth trwy ddynameg gymdeithasol iach.

Mae gweithwyr ieuenctid yn CBC STAND Gogledd Cymru yn uniaethu'n dda â phobl ifanc, gan ddefnyddio gweithgareddau fel offeryn ar gyfer myfyrio emosiynol ac adnoddau wedi'u creu gan gyfoedion i feithrin ymwybyddiaeth o emosiynau, ffiniau, a lles perthynol. Mae sesiynau'n cael eu harwain gan bobl ifanc, yn ymatebol, ac wedi'u gwahaniaethu yn ôl oedran, gan alluogi ymgysylltu ystyrlon â materion cymdeithasol cymhleth fel gorfodaeth, empathi, a hunaniaeth. Ymdrinnir yn ystyriol â chyflwyniadau a chymorth cyn sesiynau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan helpu'r rhai mwyaf bregus i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynnwys.

Yn WRYPP, mae perthnasoedd dwfn ac ymatebol ac ymagwedd sy'n ystyriol o drawma yn sail i ansawdd gwaith ieuenctid. Mae staff yn cynnig cymorth perthynol dwys, gan gynnwys ymateb i argyfwng ac ymyrraeth deuluol, gan sicrhau bod pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn cael eu diogelu a'u grymuso i ddatblygu ymddiriedaeth, rheoleiddio emosiynau, ac ymarfer ymddygiadau perthynol iach. Caiff gweithgareddau creadigol a

chwaraeon, yn cynnwys bocsio ac ymweliadau preswyl, eu defnyddio'n effeithiol i annog meithrin tîm a hunanfyfyrio.

Mae Dr. Mz yn darparu amgylchedd wedi'i arwain gan bobl ifanc lle caiff perthnasoedd eu harchwilio trwy brosiectau fel dinasyddiaeth ddigidol, coginio, garddio a thrafodaethau â thema ar ddiogelwch ar-lein a gamblo. Mae gweithwyr ieuenctid yn modelu derbyniad a chynwysoldeb yn dda, ac mae'r amgylchedd ffisegol, yn cynnwys ystafell chwarae gemau a chegin sy'n cael eu monitro, yn cynnig cyd-destunau ystyrlon ar gyfer cynnal sgyrsiau perthnasol. Mae Dr. Mz yn cynnal prosiect gyda'r bwrdd iechyd lleol lle mae nyrs yn cynnal sesiynau galw i mewn ac yn darparu gwybodaeth a chyngor gwerthfawr ar faterion iechyd. Gall pobl ifanc gysylltu â'r nyrs yn uniongyrchol hefyd am faterion sy'n peri pryder iddynt, a chael cymorth a chyngor un i un, fel y bo'n briodol.

**Ciplun: Dr. Mz: Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin**
**Meithrin perthnasoedd iach â bwyd a'r amgylchedd**

Mae gweithwyr ieuenctid yn cyfuno medrau garddio a choginio yn fedrus i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu perthnasoedd iach â bwyd a dealltwriaeth well o faeth a natur.

Mae pobl ifanc yn gwirfoddoli i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardd llysiau a ffrwythau. Maent yn dysgu cymryd cyfrifoldeb ac yn elwa ar ymarfer corff gwerthfawr trwy gyfrannu at gynnal a chadw'r ardd, yn ogystal â chaffael medrau garddwriaethol defnyddiol fel hau hadau a chynaeafu cynnyrch. Maent yn dysgu gwerthfawrogi rhythm natur bioamrywiaeth, er enghraifft sut mae planhigion penodol yn beillwyr sy'n hanfodol i gynhyrchu cnydau bwytadwy yn llwyddiannus.

Defnyddir cynhwysion o'r ardd yn ystod sesiynau coginio i hyrwyddo bwyta'n iach. Trwy greu prydau bwyd fel pryd tro-ffrio, mae pobl ifanc yn dysgu am fuddion cynnyrch tymhorol ac yn dechrau amgyffred natur ansicr y gadwyn fwyd, a faint o lafur, amser ac adnoddau sy'n angenrheidiol i gynhyrchu symiau cymharol fach o fwyd.

Trwy hyn a mentrau fel y prosiect Pryd o Fwyd am Ddim ar ddydd Gwener a sesiynau coginio ar gyllideb, mae pobl ifanc yn cael eu grymuso i gymryd cyfrifoldeb, yn dewis y prydau bwyd iach y maent yn dymuno'u creu o gynhwysion ffres, ac yn cydweithio i goginio iddyn nhw eu hunain a phobl eraill. Mae'r gweithgareddau ymarferol hyn sydd wedi'u harwain gan bobl yn dyfnhau lefel dealltwriaeth cyfranogwyr o faterion amgylcheddol tra'n datblygu eu medrau personol, cymdeithasol a bywyd mewn cyd-destun dymunol a chymunol.

Mae model cyflwyno hybrid CBC STAND Gogledd Cymru, ar-lein ac wyneb yn wyneb, wedi'i gynllunio i fod yn gynhwysol, yn hyblyg ac yn ymatebol i ynysu gwledig a rhwystrau yn gysylltiedig â gorbryder. Mae'r addasrwydd hwn yn sicrhau bod yr holl bobl ifanc, yn

cynnwys y rhai ag ADY neu heriau cludiant, yn gallu manteisio ar ddysgu a chymorth perthynol. Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad i gynwysoldeb diwylliannol trwy gyflogi gweithiwr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg yn ddiweddar, a defnyddio adnoddau dwyieithog a hygyrch.

Mae WRYPP yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth sy'n cynnwys oedolion ifanc dros 25 oed, grwpiau LHDTC+, a phobl ifanc sydd wedi wynebu trawma neu wedi cael eu heithrio. Mae eu darpariaeth LHDTC+ Viva yn hynod effeithiol o ran cynnig cymorth cyson, yn datgan hunaniaeth ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned LHDTC+. Mae WRYPP wedi addasu'n effeithiol dros gyfnod i ymateb i ffactorau allanol, fel newidiadau i gyllid. Mae hyn yn amlwg o ran trosglwyddo'u gwasanaeth Pixel, a ddechreuodd fel rhaglen addysg amgen, ond bellach yw eu gwasanaeth galw i mewn presennol. Mae'r pontio hwn wedi sicrhau parhad eu cynnig yn ystod y dydd sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl ifanc.

Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy hefyd yn darparu gwaith ieuenctid hygyrch, wedi'i wreiddio yn y gymuned sy'n agored i bawb. Mae defnyddio bws mini sy'n addas ar gyfer pobl anabl yn gwella mynediad corfforol, ac mae'r ganolfan yn darparu amgylchedd croesawgar ar gyfer ystod eang o bobl ifanc. Mae rolau wedi'u harwain gan gyfoedion yn creu ymdeimlad o berchnogaeth ac yn galluogi cyfranogwyr hŷn i fodelu rhyngweithio cymdeithasol iach.

Mae Dr. Mz yn cynnig dewislen amrywiol o weithgareddau o fewn yr adeilad, y mae llawer ohonynt yn hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, mynegiant, a thrafodaeth grŵp yn effeithiol. At ei gilydd, gall natur tymor byr llawer o'r cyllid sydd ar gael gyfyngu ar effaith hirdymor y mentrau amrywiol.

Mae cymorth ar gyfer pobl ifanc fregus yn gryfder clir yn CBC STAND Gogledd Cymru ac WRYPP, lle mae dulliau teilwredig a rhagweithiol yn sicrhau bod y rhai sydd mewn perygl, fel pobl ifanc ag ADY, pobl ifanc sy'n nodi eu hunain yn LHDTC +, a'r rhai sy'n profi trawma neu'n cael eu heithrio, yn cael eu cefnogi'n dda i ddatblygu perthnasoedd iach. Yn CBC STAND Gogledd Cymru, ymgysylltir â theuluoedd trwy gymorth yn benodol i awtistiaeth a grwpiau cyfryngau cymdeithasol, ond yn WRYPP, mae gweithwyr ieuenctid yn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol sy'n ymestyn i deuluoedd ehangach pobl ifanc. Mae'r dull cofleidiol hwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn negeseuon cyson am barch, ffiniau, ac empathi y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad ieuenctid.

### Ciplun: Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Y Rhyl
### Y tu hwnt i'r rôl: gweithwyr ieuenctid fel oedolion ymddiriedus

Mae gweithwyr ieuenctid yn WRYPP yn chwarae rôl hanfodol ym mywydau'r bobl ifanc sy'n defnyddio'u gwasanaethau. Mae'r perthnasoedd y maent yn eu meithrin wedi'u gwreiddio mewn gofal a thosturi, tra'n cynnal ffiniau proffesiynol clir. I lawer o bobl ifanc, mae'r gweithwyr ieuenctid hyn yn dod yn oedolion ymddiriedus ac yn fodelau rôl cadarnhaol, sy'n aml yn llenwi bwlch a adawyd gan absenoldeb ffigurau felly yn eu bywydau.

Mae pobl ifanc fregus ag anghenion cymhleth, y rhai sy'n mynd trwy'r system ofal, digartrefedd, neu brofiadau o gamfanteisio, yn aml yn dod o hyd i loches yn WRYPP. Caiff ei ystyried yn ofod sy'n ddiogel yn seicolegol. Mae pobl ifanc yn disgrifio sesiynau galw i mewn Pixel nid fel grŵp ieuenctid, ond fel teulu. Mae'r amgylchedd cefnogol hwn yn eu grymuso i oresgyn trallod ac yn darparu gofod i dyfu, magu hyder, ac ailsefydlu eu hunain mewn cymdeithas.

Mae'r ymddygiadau perthynol sy'n cael eu modelu gan weithwyr ieuenctid yn gosod naws gadarnhaol, gan annog pobl ifanc i wneud ffrindiau newydd, cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, a chymryd rhan mewn cyfleoedd achrededig sy'n eu paratoi ar gyfer eu camau nesaf.

O gynnig cymorth emosiynol a llywio pobl ifanc oddi wrth ymddygiadau peryglus, i'w helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad addysgol a phersonol, a hyd yn oed mynd gyda nhw i apwyntiadau meddygol, mae'r staff yn WRYPP yn dangos y rôl ganolog y mae gweithwyr ieuenctid yn ei chwarae ym mywydau'r bobl ifanc y maent yn eu gwasanaethu.

Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy yn darparu cymorth hanfodol ar gyfer pobl ifanc fregus trwy feithrin perthnasoedd diogel ac ymddiriedus ag oedolion lle gallai fod diffyg modelau rôl felly. Mae staff yn sensitif i ddynameg cam-drin a meithrin perthynas amhriodol ymhlith cyfoedion, ac yn enwedig trwy blatfformau chwarae gemau ar-lein. Fodd bynnag, gall y diffyg cyfathrebu a chydweithrediad amlasiantaethol ar draws ffiniau awdurdodau lleol rwystro ymdrechion y sefydliad i sicrhau parhad mewn gofal ac ymyrraeth.

Mae Dr. Mz yn dangos ymwybyddiaeth gref o'r heriau perthynol penodol sy'n wynebu pobl ifanc leol, gan gynnwys materion delwedd y corff, amlygrwydd i fisogynedd, a meithrin perthynas amhriodol yn gysylltiedig â phlatfformau chwarae gemau. Mae gweithwyr ieuenctid hefyd yn cael hyfforddiant gwerthfawr mewn materion fel atal hunanladdiadau ASSIST.

Mae pob un o'r pedwar sefydliad yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ymgymryd â gwaith ieuenctid sy'n hyrwyddo perthnasoedd iach. Mae CBC STAND Gogledd Cymru ac WRYPP yn cynnig darpariaeth hynod gref, gynhwysol ac o ansawdd uchel wedi'i hategu gan

berthnasoedd ymddiriedus, cyflwyno creadigol, ac ymgysylltu ystyrlon â materion cymhleth. Mae eu dulliau'n cyfuno gofal sy'n ystyriol o drawma gyda grymuso cyfoedion ac ymgysylltu â theuluoedd, gan gynnig i bobl ifanc y sefydlogrwydd a'r medrau sydd eu hangen i ffurfio a chynnal perthnasoedd iach.

Mae Dr. Mz yn cynnig ymgysylltiad creadigol wedi'i arwain gan bobl ifanc gyda ffocws clir ar berthnasoedd. Mae pobl ifanc yn elwa ar sesiynau ar faterion pwysig fel hylendid personol, rhywiaeth a misogynedd. Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy yn effeithiol iawn yn datblygu darpariaeth sy'n cynnig cysondeb, diogelwch a chysylltiad cymunedol cryf, gyda modelu cadarnhaol gan gyfoedion trwy gyfleoedd gwirfoddol ac arwain.

## Arwain a gwella

Mae arweinwyr ar draws pob un o'r pedwar sefydliad yn dangos ymrwymiad ar y cyd i ddatblygiad a lles pobl ifanc. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r arweinyddiaeth glir hon yn meithrin diwylliant o ymddiriedaeth, dysgu proffesiynol, a diogelu. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau mewn capasiti, cynaliadwyedd cyllid, a hunanwerthuso yn lleihau effaith gadarnhaol arfer sydd fel arall yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn WRYPP yn modelu arfer gynhwysol, sy'n ystyriol o drawma, ac yn canolbwyntio ar berthnasoedd. Mae tîm arweinyddiaeth ymddiriedus yn meithrin diwylliant mewnol uchel ei barch lle mae staff a phobl ifanc fel ei gilydd yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac wedi eu grymuso. Mae integreiddio strategol i rwydweithiau fel Ysgolion Bro a phartneriaeth 12 mlynedd gyda Pride Cymru yn dangos ymrwymiad clir a chynaledig i ddatblygiad perthynol cynhwysol ac iach. Mae arferion diogelu amlasiantaethol wedi'u hymgorffori'n dda, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o gamfanteisio neu ansefydlogrwydd tai.

Mae CBC STAND Gogledd Cymru yn dangos arweinyddiaeth strategol glir a chydweithio effeithiol gydag ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a byrddau cynghori. Mae ei arweinyddiaeth sylfaenol, sydd wedi'i gwreiddio mewn gwaith ieuenctid a therapi cyfathrebu, yn hyrwyddo arfer sy'n emosiynol ddeallus. Er mai dyletswyddau llywodraethu ffurfiol cyfyngedig sydd gan y bwrdd cynghori, mae'n cyfrannu'n ymarferol at ymgysylltu, codi arian a datblygu rhaglenni o hyd. Mae arweinwyr yn ymatebol i angen lleol ac yn annog gweithdrefnau adborth agored gyda phobl ifanc.

Mae'r arweinyddiaeth yng Ngrŵp Ieuenctid Maerdy wedi'i seilio ar werthoedd cryf ac ymrwymiad wedi'i wreiddio'n ddwfn i gefnogi pobl ifanc mewn ardal o amddifadedd economaidd. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r rhan fwyaf o ysgolion, gwasanaethau ieuenctid lleol, ac arweinwyr diogelu, ac maent yn bersonol hysbys i'r bobl ifanc y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, mae pwysau yn gysylltiedig â diogelwch

ariannol a staffio, er enghraifft y capasiti ariannol i gynnig tâl salwch llawn, yn creu heriau i'r staff eu hunain.

Yn Dr. Mz, mae arweinyddiaeth gan y rheolwr a'r ymddiriedolwyr yn adlewyrchu ymagwedd ystyriol, wedi'i llywio gan waith ieuenctid, at lywodraethu. Mae ymddiriedolwyr yn hysbys i staff a phobl ifanc ac yn dod â chefndiroedd addysg uwch a gwaith ieuenctid sy'n cefnogi diwylliant myfyriol ac addasol. Mae arweinwyr yn hynod ystyriol o fodelu perthynol, gan bwysleisio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn weithiwr ieuenctid yng nghyd-destun perthnasoedd iach.

Mae CBC STAND Gogledd Cymru ac WRYPP yn casglu myfyrdodau wedi'u seilio ar sesiynau ac adborth ansoddol yn rheolaidd, sy'n bwydo i mewn i gynllunio ymatebol. Mae hyn yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau bod themâu perthynol, fel ffiniau diogelu, ymddygiad ar-lein, a rheoleiddio emosiynol, yn parhau'n berthnasol. Mae CBC STAND Gogledd Cymru yn cysylltu gwerthuso prosiect yn uniongyrchol â cheisiadau am gyllid a chylchoedd gwella, tra bod WRYPP yn ymateb yn ddynamig i newidiadau systemig, fel cau eu rhaglen addysg amgen flaenorol, trwy gyflwyno darpariaethau fel sesiynau galw i mewn a chyrsiau preswyl.

Mae Dr. Mz yn meithrin diwylliant o adolygu ac addasu rheolaidd i sicrhau bod darpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc. Mae staff yn ymateb yn dda i newidiadau mewn diwylliant pobl ifanc, er enghraifft defnyddio platfformau chwarae gemau a misogynedd ar-lein, a chynnal trafodaethau wedi'u seilio ar senario i baratoi ar gyfer materion sensitif.

Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy yn ymgynghori'n rheolaidd ac yn werthfawr â phobl ifanc trwy gyngor ieuenctid. Mae arweinwyr yn ymateb yn effeithiol pan fydd cyllidwyr allanol yn gofyn am adroddiadau ar effaith prosiectau craidd. Gan ei fod yn sefydliad bach, mae arweinwyr yn treulio llawer o'u hamser ar geisiadau ac adroddiadau cyllid sy'n cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n strategol ar draws y ddarpariaeth gyfan.

Mae dysgu proffesiynol yn gryfder clir yn WRYPP, lle mae arweinyddiaeth yn buddsoddi mewn datblygiad sy'n benodol i rolau, er enghraifft ar gyfer cyrsiau arweinyddiaeth diogelu, yn yr awyr agored a'r Gymraeg. Mae hyn yn cyfrannu at forâl uchel, cyfraddau cryf o ran cadw staff, ac arfer berthynol well. Cefnogir staff yn dda i ddilyn dysgu sy'n cyd-fynd â'u rolau a'u diddordebau, sy'n gwella ansawdd ymgysylltu â phobl ifanc ymhellach.

Mae Dr. Mz hefyd yn arddangos diwylliant dysgu rhagweithiol, a gefnogir gan ymddiriedolwyr sy'n annog dysgu parhaus, ac yn addasu hyfforddiant i ymateb i ddigwyddiadau neu newidiadau diwylliannol. Mae gweithwyr ieuenctid yn hunanaddysgu ynghylch dynameg gymdeithasol sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft diwylliant 'incel' a thrafodaethau am wrywod alffa, a chânt eu cefnogi i ddilyn hyfforddiant achrededig trwy ystod o ddarparwyr, gan gynnwys Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

(CWVYS). Mae hyder staff mewn modelu a thrafod perthnasoedd iach wedi'i wreiddio yn y diwylliant dysgu hwn.

Mae gan CBC STAND Gogledd Cymru strwythur tîm sefydlog a chefnogol gyda chyfathrebu mewnol rheolaidd. Er bod staff yn dangos ymwybyddiaeth berthynol gref, mae cyfle i ffurfioli llwybrau dygsu proffesiynol ymhellach, yn enwedig wrth ymateb i anghenion diogelu digidol cymhleth a risgiau perthynol sy'n dod i'r amlwg.

Yng Ngrŵp Ieuenctid Maerdy, mae'r diffyg cyllid cynaledig yn rhwystro mynediad at ddysgu proffesiynol rheolaidd. Er bod ymrwymiad arweinwyr a gwirfoddolwyr yn nodedig, mae hyfforddiant cyfyngedig ynghylch cam-drin ymhlith cyfoedion, aflonyddu rhywiol, a lles emosiynol yn tanseilio gallu i ymgysylltu'n ddwfn â materion cynyddol gymhleth yn seiliedig ar berthnasoedd. Yn ychwanegol, ni all staff fanteisio ar gwnsela proffesiynol neu gymorth dadfriffio ar ôl digwyddiadau trawmatig, sy'n effeithio ar eu lles eu hunain.

Mae polisïau a phrotocolau diogelu yn briodol ar draws pob un o'r sefydliadau, yn enwedig yn WRYPP, lle mae tîm diogelu dynodedig yn sicrhau gwyliadwriaeth gyson. Mae asesiadau risg, yn cynnwys teithiau cerdded i archwilio'r wlad a thracio GPS ar gyfer sesiynau cerdded bryniau, yn dangos rheoli risg yn rhagweithiol, yn enwedig mewn amgylcheddau risg uchel.

Mae gan CBC STAND Gogledd Cymru brosesau mewnol cryf ac mae'n defnyddio offer fel contractau ymddygiad ar-lein gyda phobl ifanc a rhieni. Mae eu datblygiad polisi yn gadarn, gyda dogfennau clir a hawdd eu deall.

Mae Grŵp Ieuenctid Maerdy yn glynu at arferion diogelu craidd ac yn cysylltu'n effeithiol ag ysgolion, yn enwedig yn eu hardal awdurdod lleol eu hunain.

Mae Dr. Mz yn dangos diwylliant diogelu priodol wedi'i gefnogi gan adolygiadau polisi blynyddol a chynllunio senarios. Caiff yr amgylchedd ei fonitro'n dda, er enghraifft trwy staff yn goruchwylio'r ystafell chwarae gemau, a staff yn ymateb yn briodol i risgiau fel gorfodaeth ar-lein neu gamfanteisio ar gyfoedion. Mae staff yn gweithio'n dda gyda gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion i gefnogi parhad gofal a delio â materion sy'n codi.

Caiff arweinyddiaeth ar draws pob un o'r pedwar sefydliad ei nodweddu gan ymrwymiad i les pobl ifanc ac mewn creu amgylcheddau sy'n cynnig cymorth effeithiol i ddatblygu perthnasoedd iach.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o bobl ifanc…’* neu *‘ychydig iawn o bobl ifanc…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/09/2025